

# **Cerddoriaeth**

## **Amodau Arbennig**

### **1. Pwy sy'n cael cystadlu**

(i) Mae cystadlaethau llwyfan ym maes cerddoriaeth yn agored i unrhyw un sy'n cydymffurfio â rheol gyffredinol Rhif 12 ac nad yw'n gweithio fel cerddor proffesiynol wrth ei brif alwedigaeth. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol i arweinyddion nac athrawon cerddoriaeth na chystadleuwyr ar gyfansoddi.

(ii) Nodwch bod y cystadlaethau'n agored i unrhyw un a anwyd yng Nghymru, y ganwyd un o'i rieni yng Nghymru, neu sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg neu unrhyw un sydd wedi byw yng Nghymru am flwyddyn cyn 31 Awst 2019, ac eithro'r ysgoloriaethau offerynnol ac Ysgoloriaeth Towyn Roberts lle mae gofyn i'r cystadleuydd fod wedi byw yng Nghymru am 3 blynedd cyn 31 Awst 2019.

### **2. Traw**

Defnyddir y Traw Cyngerdd Safonol Rhyngwladol (A-440 Hz) ym mhob cystadleuaeth leisiol ac offerynnol sy'n gofyn am bianco.

### **3. Cyweirnod**

Yr argraffiad a'r cyweirnod a nodir yn unig a ganiateir ym mhob cystadleuaeth.

### **4. Cadenza**

Mae rhyddid i gystadleuwyr amrywio cadenza neu osod i mewn gadenza neu nodau uchel dewisol lle bo'n arferol, ond rhaid hysbysu'r beirniaid o'r newidiadau.

### **5. Cyfeilyddion**

Rhaid i gystadleuwyr dderbyn gwasanaeth cyfeilyddion swyddogol yr Eisteddfod ym mhob cystadleuaeth ac eithrio corau, cystadlaethau o sioeau cerdd a chystadlaethau offerynnol. Bydd yr Eisteddfod yn ceisio sicrhau gwasanaeth yr un cyfeilydd yn y rhagbrawf a'r prawf terfynol.

### **6. Gwobr Goffa David Ellis**

Bydd beirniaid yn dewis hyd at bedwar cystadleuydd o'r categori lleisiol dros 25 oed i gystadlu yng nghystadleuaeth Gwobr Goffa David Ellis. Ni chaiff neb gynnig ar fwy nag un o'r cystadlaethau yn y categori hwn.

### **7. Gwobr Goffa Osborne Roberts**

Bydd beirniaid yn dewis hyd at bedwar cystadleuydd o'r categori lleisiol dan 25 oed i gystadlu yng nghystadleuaeth Gwobr Goffa Osborne Roberts. Ni chaiff neb gynnig ar fwy nag un o'r cystadlaethau yn y categori hwn.

### **8. Hawlfraint**

Cyfrifoldeb corau, partïon, grwpiau ac unigolion yw sicrhau hawlfraint unrhyw ddarnau hunanddewisiad. Rhaid nodi'r manylion hyn ar y ffurflen gystadlu. Ceir canllawiau a chyfarwyddiadau pellach yn adran 'Cystadlu' ar wefan yr Eisteddfod.

## 9. Hunanddewisiad

- (i) Gall cystadleuydd ddewis cyweirnod mewn cystadlaethau sydd â hunanddewisiad, ond rhaid i'r cyweirnod hwnnw ymddangos mewn copi sydd wedi'i gyhoeddi gan gwmni cydnabyddedig.
- (ii) Caniateir canu mewn unrhyw gyweirnod yng nghystadlaethau Canu Emyr i rai dros 60 oed, Perfformiad unigol i rai dros 19 oed o gân o Sioe Gerdd a Pherfformiad unigol i rai dan 19 oed o gân o Sioe Gerdd.
- (iii) Rhaid anfon un copi o bob darn yn y cywair a ddewiswyd at y Trefnydd erbyn 15 Mehefin 2019, gyda'r geiriau Cymraeg wedi'u gosod ar y gerddoriaeth.
- (iv) Rhaid canu'r darnau lleisiol yn y Gymraeg, fodd bynnag caniateir i gorau gynnwys un gân heb eiriau yn eu rhaglen os dymunant. Gellir archebu'r geiriau Cymraeg ar gyfer darnau gosod drwy gysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod, neu drwy gwblhau'r ffurflen archebu yng nghefn y Rhestr Testunau ac ar y wefan.
- (v) Gall Swyddfa'r Eisteddfod ddarparu cyfieithiad Cymraeg o unrhyw gân unwaith mae'r cystadleuydd wedi sicrhau caniatâd ysgrifenedig i gyfieithu'r darn gan y cyhoeddwr. Rhaid gwneud cais am gyfieithiad Cymraeg gan anfon copi o'r geiriau gwreiddiol, y gerddoriaeth a'r caniatâd gan y cyhoeddwr erbyn 1 Mai 2019.  
Ni chaniateir newid y dewis gwreiddiol.

## 10. Corau

- (i) Aelodaeth: Ni chaiff neb ganu mewn côr heb fod yn aelod cyflawn o'r côr hwnnw am ddeufis yn union cyn yr Eisteddfod, ac ni all neb ganu mewn mwy nag un côr yn yr un categori corawl.
- (ii) Rhannau Unawdol: Ni chaniateir i unrhyw gân ddewis darnau lle rhoddir lle blaenllaw i unawdwyr. Os oes ambell adran unawdol o fewn darn, yna mae'n ofynnol i'r arweinydd drefnu bod mwy nag un llais yn canu yr adrannau hyn. Ni ddylid dewis caneuon o arddull sy'n defnyddio côr fel 'cantorion cefndir' am gyfnod sylweddol.
- (iii) Amseru: Mae gan bob côr 12 munud o amser canu (o'r nodyn cyntaf i'r nodyn olaf o bob cân), a hyn i gynnwys nifer amhenodol o ganeuon gyda neu heb gyfeiliant. Nodwch fod rhaid cadw at amser, a bydd corau'n cael eu cosbi am fynd dros yr amser, a cheir rhestr o'r cosbau hyn yn y Rheolau ac Amodau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau.
- (iv) Rostra: Darperir rostra gan yr Eisteddfod.

## 11. Dehongliad Cyfansoddwr o Gymro

Person sydd wedi'i eni yng Nghymru, sydd o dras Gymreig neu sydd wedi gweithio yng Nghymru.

## 12. Ysgoloriaethau

Ni ellir ennill unrhyw ysgoloriaeth fwy nag unwaith. Mae'r arian a gynigir ym mhob ysgoloriaeth i'w ddefnyddio i hyrwyddo gyfa'r unigolyn, a disgwylir i enillwyr brofi i'r Eisteddfod bod yr arian wedi'i wario ar hyn. Dylid cysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod am ragor o wybodaeth. Gweler hefyd Amodau Arbennig 1 yn yr adran hon.

\*\*\*Gweler rheol rhif 12, Rheolau ac Amodau Cyffredinol – Hawl i Gystadlu.

### **13. Cystadlu**

Ni all neb gystadlu mwy nag unwaith yn yr un gystadleuaeth llwyfan.

### **14. Oedran**

Nodwch bod rhaid i'r cystadleuydd fod o fewn cwmpas oedran y gystadleuaeth ar 31 Awst 2019.

### **15. Copïau**

Nodwch ei bod yn anghyfreithlon gwneud copïau ychwanegol eich hun o gerddoriaeth, barddoniaeth neu unrhyw waith sydd wedi'i gyhoeddi.

**DS Dylech sicrhau eich bod wedi darllen y rheolau ac amodau cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau cyn cystadlu.**

